

## **Paul Egan**

Ar hyn o bryd mae Paul yn Ddirprwy Brif Weithredwr a Rheolwr Adnoddau Un Llais Cymru ac ef yw'r swyddog arweiniol ar ddatblygu a rheoli gweithrediad y rhaglen hyfforddi Cynghorwyr yng Nghymru.

Yn dilyn gyrfa lwyddiannus mewn llywodraeth leol, dechreuodd Paul ar yrfa gyda'r Gwasanaeth Prawf ym 1981 gan wasanaethu mewn amrywiaeth o rolau gan gynnwys Prif Swyddog Cynorthwyol (Gwasanaethau Cefnogi) a Chyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Busnes. Yn ystod y cyfnod hyd at ei ymddeoliad cynnar ym mis Mawrth 2008, bu'n Brif Weithredwr Dros Dro Ardal Brawf De Cymru yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2003. Yn ystod y cyfnod hwn o weithredu i fyny, gwasanaethodd Paul fel aelod o'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol a'r Fforwm Prif Swyddogion Cymru a Chadeiryddion Byrddau.

Mae Paul wedi graddio mewn gweinyddiaeth gyhoeddus, yn aelod siartredig o'r Sefydliad Personél a Datblygiad; Cymrawd y Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth; ac yn Gymrawd o Sefydliad Rheolaeth y Sector Cyhoeddus. Mae ganddo ystod eang o brofiad ar draws pob agwedd ar reoli adnoddau dynol a chynllunio strategol a enillwyd trwy fod yn aelod o Fwrdd Strategol AD Cenedlaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Grŵp Datblygu Busnes Cenedlaethol; gwasanaethu fel Is-Gadeirydd Sgiliau er Cyfiawnder (Grŵp Rhanbarthol Cymru); a thrwy gymryd rhan mewn ystod eang o grwpiau cyfiawnder troseddol rhanbarthol a chenedlaethol ym meysydd personél a hyfforddiant a datblygiad. Yn ei flwyddyn olaf cyn ymddeoliad cynnar, bu'n allweddol wrth gynorthwyo Bwrdd Prawf De Cymru i ddod yn un o'r chwe Bwrdd Ymddiriedolaeth Wave cyntaf yng Nghymru a Lloegr.

Ers 2008, mae Paul wedi gweithio fel ymgynghorydd AD llawrydd; arwain y swyddogaeth AD yng Ngrŵp Tai Seren; gweithio fel Clerc y Gorfforaeth yng Ngholeg Glan Hafren; a gwasanaethodd fel aelod o Fwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Llywodraeth Cymru am 3.5 mlynedd.

Mae wedi bod yn weithgar ym maes gweinyddiaeth cynghorau lleol ers blynyddoedd lawer ac wedi bod yn Glerc i Gyngor Cymuned Llandochoau ers dros 40 mlynedd. Ar hyn o bryd ef yw Dirprwy Brif Weithredwr Un Llais Cymru ac ef yw'r Ymgynghorydd arweiniol ym maes AD a llywodraethu. Mae ganddo gymhwyster CiLCA ac mae wedi cael ei gyflogi gan yr SLCC fel hyfforddwr CiLCA.

Mae ganddo brofiad sylweddol o gynnal ymchwiliadau disgyblu a chwyno fel rhan o'i rôl flaenorol yn y gwasanaeth prawf, ar gyfer cynghorau cymuned a thref ac ar gyfer ystod o sefydliadau elusennol a sefydliadau addysgol. Mae wedi gwasanaethu fel aelod Bwrdd ar nifer o elusennau ac ar hyn o bryd mae'n Gadeirydd Elusen yn ardal RhCT.